# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 1

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Rheoleiddwyr perthnasol a'u swyddogaethau*

### 16 Ystyr "rheoleiddwyr perthnasol" a "swyddogaethau perthnasol"

(1) At ddibenion y Rhan hon, mae "rheoleiddiwr perthnasol" yn berson a restrir yn is-adran (2) a "swyddogaethau perthnasol" y rheoleiddiwr yw'r rhai a bennir mewn cysylltiad â'r person hwnnw yn yr is-adran honno.

(2) Mae'r rheoleiddwyr perthnasol a'u swyddogaethau perthnasol fel a ganlyn—

(a) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru wrth arfer swyddogaethau o dan adran 38 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44) (arolygu AALl);

(b) Gweinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau o dan—

(i) adrannau 93, 94 a 95 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau Cymunedol) 2003 (p. 43) (adolygiadau etc o'r gwasanaethau cymdeithasol sy'n cael eu darparu);

(ii) rheoliadau a wnaed o dan adran 96 o'r Ddeddf honno;

(c) person a benodwyd o dan adran 28 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21) (arolygwyr) wrth arfer ei swyddogaethau o dan adran 28(1) o'r Ddeddf honno;

(d) Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth arfer swyddogaethau o dan adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (p. 38) (ymchwiliadau);

(e) archwilydd sydd wedi ei benodi o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (p. 23) i archwilio cyfrifon awdurdod gwella Cymreig wrth arfer y swyddogaeth o gynnal yr archwiliad.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn—

(a) diwygio neu hepgor unrhyw baragraff yn is-adran (2);

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(b) ychwanegu paragraffau ychwanegol at yr is-adran honno;
(c) diwygio neu hepgor paragraffau ychwanegol o'r fath.

(4) Caiff gorchymyn o'r fath wneud unrhyw ddiwygiadau i'r Mesur hwn sy'n ymddangos yn angenrheidiol neu'n hwylus i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth a wnaed o dan is-adran (3).

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â gwneud gorchymyn o'r fath onid ydynt wedi ymgynghori â'r canlynol—
(a) personau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli awdurdodau gwella Cymreig;
(b) Archwilydd Cyffredinol Cymru;
(c) pan fo'r gorchymyn yn newid y swyddogaethau perthnasol sydd wedi'u pennu mewn cysylltiad â rheoleiddiwr perthnasol, y rheoleiddiwr hwnnw;
(d) pan fo'r gorchymyn yn ychwanegu person at y rhestr o reoleiddwyr perthnasol, y person hwnnw.

(6) Ond nid yw is-adran (5)(d) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fod wedi ymgynghori â pherson a sefydlwyd drwy neu o dan unrhyw ddeddfiad os nad yw'r deddfiad mewn grym ar y dyddiad y gwneir y gorchymyn.